

# Ein gwaith ym Bwllheli

**Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar brosiectau ac astudiaethau blaenorol a bydd yn cynnwys asesu ystod o opsiynau tymor hir i leihau'r perygl o lifogydd o afonydd ac o'r môr yn y gymuned leol.**

Byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau ar gyfer yr opsiynau y byddwn yn eu hystyried megis cynaliadwyedd, ymarferoldeb a fforddiadwyedd.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda natur ac i archwilio cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd a gwella bioamrywiaeth yn yr ardal. Efallai y bydd cyfleoedd i adfywio'r amddiffynfeydd cyfredol a manau cyhoeddus cysylltiedig, gan ddarparu manteision ehangach i'r gymuned leol.

Rydym yn awyddus i weithio gyda'n gilydd i ganfod atebion a all gynnig dyfodol cynaliadwy i Bwllheli.



Photo Credit - dronepics.wales

## Camau'r prosiect

Rydym yn bwriadu sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn cymryd rhan ym mhob cam o'r prosiect.

### **Tymor yr Haf 2022 (NAWR) Archwilio'r opsiynau**

Ar hyn o bryd rydym yn sefydlu'r achos dros newid. Rydym yn datblygu rhestr hir o opsiynau gyda rhanddeiliaid a'r gymuned.

### **Gaeaf 2022 Cyflwyno opsiynau rhestr fer**

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned.

### **2023 Paratoi'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio**

Byddwn yn adolygu'r rhestr fer o opsiynau ac yn datblygu opsiwn sy'n cael ei ffafrio a chyfleoedd ar gyfer buddsoddi.

### **2024 Cyflwyno'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio er mwyn ei gymeradwyo**

Bydd cais am gyllid yn cael ei gyflwyno i Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Llywodraeth Cymru i nodi sut y bydd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn cael ei gyflwyno.